# Arsylwi Ystafell ddosbarth yn Ysgol Penglais, Aberystwyth – Canllaw i Ymgeiswyr

Bu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gweithio gydag Ysgol Penglais ers nifer o flynyddoedd i ddarparu profiad arsylwi yn y dosbarth i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Yn ogystal â chyfle i gael profiad gwaith â ffocws iddo, mae'r lleoliadau hyn hefyd yn cynnig cyfle i ryngweithio a rhwydweithio mewn amgylchedd ysgol, i ddysgu a deall prosesau rheoli ysgolion, ac i gael geirda ar gyfer unrhyw gais am hyfforddiant i fod yn athro neu athrawes yn y dyfodol.

Os credwch y gallai swydd athro neu athrawes fod yn iawn ichi, fe fyddwch yn ymwybodol ei bod yn hanfodol cael cymaint o brofiad perthnasol â phosibl. ***Ysgrifennwyd y canllaw hwn i'ch helpu i wneud y mwyaf o'ch siawns i gael eich derbyn ar gyfer y cyfle gwych hwn am leoliad; cofiwch ddarllen yn ofalus.***

**Gwybodaeth Gyffredinol**
Er mwyn gallu cynnig y cyfleoedd hyn yn drefnus a theg, cynhelir profiad gwaith yn Ysgol Penglais ar ddau gyfnod penodedig pob blwyddyn academaidd, sef diwedd Ionawr a diwedd mis Mai/dechrau mis Mehefin (ar ôl i arholiadau'r Brifysgol orffen).

Dylai myfyrwyr sydd â diddordeb nodi y bydd, ym mis **Ionawr**, gyfleoedd i arsylwi'r addysgu ym mhob blwyddyn ysgol ond, yn ystod lleoliad yr **haf**, **ni fydd unrhyw ddosbarth blwyddyn 11 a blwyddyn 13** ar yr amserlen arsylwi.

**Mae hyblygrwydd yn hanfodol oherwydd**, er y gwneir pob ymdrech i gynnig profiad o arsylwi addysgu yn y pwnc/pynciau a nodir yng nghais y myfyriwr llwyddiannus, efallai y bydd angen addasu cynlluniau yn nes at y dyddiad dechrau, neu hyd yn oed yn ystod y lleoliad, gan dibynnu ar amgylchiadau a pha athrawon fydd ar gael ar yr adeg benodol honno.

Os na ellir darparu amserlen lawn yn y pwnc/prif faes diddordeb, bydd amserlen yn cynnwys arsylwi mewn meysydd eraill yn cael ei defnyddio, a fydd yn dal i roi profiad rhagorol o reolaeth yn yr ystafell ddosbarth, dulliau dysgu ac addysgu, a bywyd a gweithrediadau'r ysgol.

**Cychwyn arni – gwnewch eich gwaith ymchwil!**
Meddyliwch sut beth fyddai gyrfa athro neu athrawes, a'r hyn sy'n gwneud athrawon da. Ewch i wefannau 'Get into Teaching' yr Adran Addysg a'r wefan Prospects fel man cychwyn. Hefyd, os oes unrhyw aelodau o'ch teulu neu'ch cydnabod yn athrawon, mynnwch sgwrs â nhw am addysgu fel gyrfa. Gwnewch ymchwil i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Efallai y bydd y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon o gymorth hefyd.

**Gwneud Cais**
Mae'r drefn o ddewis myfyrwyr i gymryd rhan yn y cyfle hwn yn un gystadleuol, sy'n golygu mai dim ond ymgeiswyr sydd â'r datganiad personol cryfaf a mwyaf perthnasol fydd yn llwyddo. Ar ben hyn, mae galw mawr am y cyfleoedd bob amser ac mae'n bosibl na chynigir lle i ymgeiswyr hyd yn oed os ydynt wedi cyflwyno cais da.

Bydd y detholwyr yn gwirio eich bod wedi gwneud eich ymchwil a bod gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn yw addysgu. Byddant hefyd yn edrych am ymrwymiad, brwdfrydedd, egni a chyffro, a diddordeb gwirioneddol mewn dysgu fel gyrfa ac yn y pwnc/pynciau a ddewiswyd gennych. Maen nhw hefyd eisiau gallu gwybod o'ch cais pam eich bod chi'n meddwl y byddech chi'n gwneud athro da/athrawes dda!

Mae croeso i chi gyflwyno cais ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a bydd yn cael ei gadw tan i'r dewis nesaf ddigwydd. Fodd bynnag, ychydig wythnosau cyn pob dyddiad bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn anfon e-bost at bob myfyriwr i'w hysbysu pan fydd ceisiadau ar gyfer y cyfnod nesaf yn agor, felly gallwch aros tan hynny os dymunwch – cadwch olwg am yr e-bost hwn a gwiriwch eich mewnflwch sbwriel am neges e-bost o gyrfaoedd@aber.ac.uk.

Er mwyn eich helpu i ysgrifennu'r cais gorau posibl – heb wallau – ewch i'r taflenni defnyddiol a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar ysgrifennu datganiad personol.

Rydym yn eich cynghori'n gryf hefyd i ofyn am gymorth gyda'ch cais gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd, wyneb yn wyneb, er mwyn sicrhau ei fod cystal ag y gall fod. Mae ein tudalen we yn rhoi manylion am sut i gysylltu â ni.

***Hefyd, dilynwch y cyfarwyddiadau a'r cynghorion isod:***

- Dechreuwch gyda'ch enw a'ch rhagenw dewisol, a manylion y cwrs rydych yn ei astudio, e.e.

  Jane Smith (hi/hi)
  BA (Hons) Hanes, Blwyddyn 2
  Blwyddyn graddio: 2024
- Byddwch yn gryno! Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy nag 1 tudalen o A4 o hyd os yn bosib.
- Teilwra eich datganiad personol! Rhaid i'ch cais fynegi'n glir eich rhesymau dros wneud cais am y cyfle penodol ac unigol hwn.
- Cyfleu eich angerdd am addysgu, yn seiliedig ar eich ymchwil i'r yrfa hon.
- Egluro sut y bydd arsylwi yn yr ystafell ddosbarth fel hyn yn cyfrannu at eich cynlluniau a'ch dyheadau gyrfaol.
- Bod yn glir am y pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddynt ond byddwch hefyd yn hyblyg ac yn barod i gael eich rhoi gydag athrawon pynciau eraill.
- Pwysleisio unrhyw brofiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc, yn addysgu neu mewn cyd-destun arall, am dâl neu'n ddi-dâl, ffurfiol neu anffurfiol. Er enghraifft, Brownies, Cubs, tywyswyr, clybiau chwaraeon, digwyddiadau chwaraeon, clybiau cerddoriaeth, cynyrchiadau drama, gofalu am blant ifainc, gofalu am frodyr a chwiorydd, cynlluniau gwyliau, clybiau gwaith cartref, yn ogystal ag unrhyw brofiad ysgol arall.
- Pwysleisiwch eich brwdfrydedd am y pwnc a ddewiswyd gennych – meddyliwch am eich hoff fodiwlau ac unrhyw astudiaethau eraill, gwaith maes, gwaith labordy, gwaith traethawd neu sgiliau technegol/ymarferol sydd wedi'u cwblhau neu eu datblygu yn rhan o'ch gradd a fydd yn berthnasol.
- Meddyliwch am y sgiliau a'r rhinweddau y gallwch eu cynnig a dethol o’u plith y rhai sydd eu hangen i fod yn athro da/athrawes dda; eto, ei gadw'n berthnasol. Er enghraifft, sgiliau cyflwyno, creadigrwydd, sgiliau trefnu, sgiliau cynorthwyo, gallu i greu ymddiriedaeth a chydberthynas, amynedd. Rhowch dystiolaeth o'r sgiliau hyn ac, unwaith eto, cadwch y manylion yn berthnasol.
- Mae sgiliau, cyraeddiadau, hobïau a diddordebau eraill bob amser yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn eich datganiad personol gan eu bod yn gallu dangos y math o berson rydych chi, ond hefyd y pethau eraill y gallech eu dwyn i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, gwobrau a enilloch; aelodaeth o dimau a phwyllgorau; Gwybodaeth TG; ieithoedd a siaredir; gweithgareddau celfyddydau perfformio/creadigol a chwaraeon rydych chi'n cymryd rhan ynddynt.
- Cofiwch gynnwys y cwrs rydych chi'n ei astudio ar hyn o bryd, a'r flwyddyn rydych chi ynddi nawr, yn adran addysg eich datganiad personol.
- Rhowch fanylion cyswllt o leiaf un person a all ddarparu geirda (eich tiwtor personol) ond yn ddelfrydol dau, ac yn ddelfrydol dylai’r ail fod yn rhywun sydd wedi'ch gweld yn gweithio gyda phlant neu bobl ifanc neu mewn rhyw fath o addysgu/mentora.
- Gwiriwch ac ailwiriwch y fformat, y sillafu a'r gramadeg. Gwnewch yn sicr nad oes camgymeriadau na hepgoriadau ac na chollir unrhyw wybodaeth pan gaiff y ddogfen ei hargraffu.
- E-bostiwch eich cais at workexp@aber.ac.uk – peidiwch â'i anfon i'r ysgol yn uniongyrchol. Anfonwch ddogfennau .doc yn unig (Microsoft Word), nid .pdf.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Ar ôl y dyddiad cau, mae pob cais yn cael ei anfon ymlaen i Ysgol Penglais i wneud y detholiadau. Nid oes cyfweliadau. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus eu hysbysu am y canlyniad trwy e-bost gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd tua 4-6 wythnos ar ôl y dyddiad cau. Rhoddir 'cyfarwyddiadau' i'r ymgeiswyr llwyddiannus am y lleoliad a’r hyn i’w wneud pan fyddant yn cyrraedd ar y diwrnod cyntaf.

Diolch am ddarllen.

Tîm Profiad Gwaith, Gwasanaeth Gyrfaoedd
Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth
workexp@aber.ac.uk / 01970 62 2378 / www.aber.ac.uk/gyrfaoedd